# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

**8 Tachwedd 2023**

Yn bresennol: Dr R Heath Davies (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd D Clements, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

Swyddogion yn Bresennol: Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Pennaeth Datgarboneiddio, Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch, Cyfarwyddwr Natur a Thwristiaeth, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd. Hefyd Jason Blewitt a Jonathan Mather (Archwilio Cymru) a Nigel Ireland (Astari - Archwilio Mewnol).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11.35am; 11.45yb -1.00pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw un wedi datgan buddiant.

[Gyda chytundeb y cyfarfod, newidiodd y Cadeirydd drefn yr agenda er mwyn hwyluso trefniadau swyddogion Archwilio Cymru oedd â chyfarfod arall i'w fynychu y bore hwnnw.]

**3. ISA260 Adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu**

Croesawodd y Cadeirydd Jason Blewitt a Jonathan Mather o Archwilio Cymru a gyflwynodd yr adroddiad ar yr Archwiliad o Gyfrifon yr Awdurdod am y flwyddyn 2022-23. Dywedwyd bod yr Archwilydd yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod unwaith y byddai Llythyr Sylwadau wedi'i ddarparu, ac roedd drafft o'r llythyr hwnnw wedi'i atodi i'r adroddiad er gwybodaeth. Roedd y llythyr yn cyfeirio at ddau gamddatganiad nas cywirwyd oedd uwchben y lefel ddibwys o £10,000 ond yn is na'r lefel perthnasedd (£205,000). Roedd y rhain yn ymwneud ag anfonebau ar gyfer gwariant a gofnodwyd yn 2022-23 ond ni dderbyniwyd yr eitemau tan 2023-24, a hefyd gwerth rhai prydlesi. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi camddatganiadau eraill a gafodd eu cywiro gan swyddogion. Gan ddiolch i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu cymorth i gynnal yr Archwiliad, dywedodd yr Archwilwyr bod y gwaith wedi clustnodi lefel uwch na'r arfer o wallau, ac argymhellodd y dylid cynnal adolygiad o'r gwiriadau sicrwydd ansawdd cyn yr archwiliad nesaf. Dywedwyd y byddai'r cyfrifon a'r llythyr sylwadau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yr wythnos ganlynol i'w cymeradwyo.

Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Cyllid bod yr anfonebau yn ymwneud â gwariant grant lle bu problemau o ran cyflenwi, a dywedodd yr Aelodau eu bod yn deall yr anhawster o fodloni'r amodau grant a'r gofynion archwilio. Roedd y mater wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru. Aeth y swyddogion ymlaen i egluro y bu rhai materion staffio o fewn y Tîm Cyllid oedd wedi cyfrannu at y broblem sicrwydd ansawdd ond cadarnhawyd bod sicrhau systemau ariannol effeithiol yn flaenoriaeth i'r Awdurdod. Barnai'r Archwilwyr nad oedd y gwaith ychwanegol yn debygol o arwain at gost ychwanegol i'r Awdurdod.

**Nodwyd.**

4. **Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023.

5. **Log Gweithredu a Materion yn Codi**
Cam gweithredu 896 (cyflwyniad ar Office 365) oedd yr unig gam gweithredu nad oedd wedi'i gwblhau, a nodwyd bod gan y Tîm Technoleg Gwybodaeth bellach gyflenwad llawn o staff, a'r gobaith oedd y byddai swyddog yn mynychu'r cyfarfod nesaf.

**Nodwyd.**

6. **Adroddiad y Grŵp Iechyd a Diogelwch**
**Nodwyd** cofnodion y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023.

7. **Adroddiad Archwilio Mewnol**
Croesawodd y Cadeirydd Nigel Ireland o Astari, Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, a gyflwynodd eu hadroddiad ar Aeddfedrwydd Risg, oedd wedi bod yn destun Gweithdy i'r Aelodau ar 20 Medi 2023, a rhoddodd hefyd ddiweddariad ar y gwaith a wnaed ers y cyfarfod diwethaf. Roedd yr adroddiad Aeddfedrwydd Risg yn cynnwys 5 argymhelliad, ynghyd â nifer o awgrymiadau oedd yn rhoi cyngor ar sut i ddatblygu'r fframwaith rheoli risg ymhellach. Statws cynghorol oedd i hyn, ac felly nid oedd unrhyw farn sicrwydd. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r adroddiad yn llywio'r Polisi Rheoli Risg diwygiedig, fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol, ac yn dilyn hynny byddai cofrestr risg ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor. Roedd yr Aelodau yn croesawu'r dull a nodwyd yn yr adroddiad, a gofynnwyd i'r

argymhellion hynny a dderbyniwyd gan swyddogion gael eu cofnodi yn y log Gweithredu Archwilio wrth symud ymlaen.

Hefyd roedd yr Archwilydd Mewnol wedi tynnu sylw at y tri newid i'r Cynllun Archwilio Mewnol, oedd yn ymwneud yn bennaf ag amseriad o ganlyniad i newidiadau yn y staff. Roedd yr Aelodau yn hapus â'r cynllun diwygiedig.

**Nodwyd.**

[Tra ar y pwnc Risg, cymerodd y Cadeirydd y Gofrestr Risg fel yr eitem nesaf.]

**8. Cofrestr Risg**

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf yr Awdurdod. Nodwyd yn dilyn derbyn adroddiad Archwilio Mewnol ar Aeddfedrwydd Risg y byddai'r Polisi Rheoli Risg yn cael ei adolygu, ac felly ychydig iawn o newidiadau a wnaed i'r risgiau a nodir yn y Gofrestr. Aeth yr adroddiad ymlaen i amlygu'r 6 risg uchaf i'r Awdurdod.

Roedd yr Aelodau o'r farn y dylid cynyddu'r sgôr risg ar gyfer Risg 14 (Effaith andwyol yr ymarferiad cyflogau a graddfeydd) gan y gallai'r ymarferiad olygu goblygiadau cyllidebol neu forâl is yn dibynnu ar y canlyniad.  Fodd bynnag roedd y Prif Weithredwr o'r farn mai ychydig o liniaru y gellid ei wneud hyd nes bod canlyniadau'r ymarferiad ar gael, a dywedodd y byddai'r risg yn cael ei adolygu cyn y cyfarfod nesaf.

Awgrymwyd y dylid diwygio'r geiriad ynglŷn â Risg 10 (Clefyd Coed Ynn) i amlygu'r risg i iechyd a diogelwch a'r effaith ar y dirwedd.

Daeth i'r amlwg yn ystod y cyfarfod bod y Gofrestr anghywir wedi'i hatodi i'r adroddiad. Gan ymddiheuro am hyn, dosbarthodd y Prif Weithredwr y ddogfen gywir.

**Nodwyd.**

**9. Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol (Yn dod i ben 30 Medi 2023)**

Atgoffwyd yr Aelodau bod cais wedi'i wneud am gael log gweithredu i gynorthwyo gyda monitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn adolygiadau Archwilio. Roedd y log oedd gerbron y Pwyllgor yn rhestru pob cam gweithredu, y rhai oedd wedi'u cwblhau a'r rhai oedd heb eu cwblhau. Roedd y camau gweithredu oedd heb eu cwblhau wedi'u hychwanegu at system yr Awdurdod o adrodd ar berfformiad, a byddent yn cael eu monitro gan y Tîm Rheoli. Roedd camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu gan yr Archwilwyr blaenorol, a nodwyd bod camau

blaenoriaeth 1 yn derbyn sylw ar hyn o bryd drwy’r broses o adolygu Cynlluniau’r Awdurdod ar Barhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu oedd heb eu cymryd yn ymwneud ag adrannau lle bu newidiadau sylweddol yn y staff, a'r gobaith oedd y byddai'r rhestr lawer yn llai yn y dyfodol agos.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod hon yn ddogfen ddefnyddiol, a gwnaed nifer o awgrymiadau ar sut y gellid ei gwneud yn fwy defnyddiol iddynt drwy amlygu'r camau gweithredu hynny sydd heb eu cymryd ac sydd â'r risg fwyaf, a hefyd cynnwys rhywfaint o gyd-destun gan swyddogion. Cytunodd y swyddog i adolygu'r log gweithredu cyn y cyfarfod nesaf.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:35am a 11:45am]

**10. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb**

Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn nodi manylion y gyllideb refeniw net am y chwe mis hyd at mis Medi 2023 oedd yn dangos bod y gwariant gwirioneddol ac ymrwymedig yn £2,820k, oedd yn £197k (6.5%) o dan y gyllideb broffiliedig o £3,017k. Roedd y prif resymau dros yr amrywiad mewn gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer pob adran gwasanaeth wedi'u nodi yn yr adroddiad. Roedd ffigyrau incwm yr ail chwarter yn dangos bod gwerthiant masnachol a thaliadau mynediad yn uwch na'r gyllideb, fodd bynnag roedd incwm meysydd parcio i lawr.

Ar ddiwedd yr ail chwarter y sefyllfa refeniw a ragwelwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 2023/24 oedd diffyg gweithredol o £120k yn erbyn diffyg o £375k yn y gyllideb wreiddiol, a nodwyd y rhesymau am hyn yn yr adroddiad. Fodd bynnag nodwyd bod hyn yn welliant sylweddol.

Roedd y rhaglen gyfalaf am y flwyddyn wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol o £995k i gyllideb ddiwygiedig o £1,426k. Roedd ffigurau’r rhagolwg i fyny oherwydd caffael tir ar Draeth Trefdraeth a ariannwyd gan grant pwrpasol Llywodraeth Cymru, a phrynu peiriannau torri newydd ar gyfer y wardeniaid a ariannwyd gan grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Yn ogystal, bu taliad pellach am osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan oedd yn golygu bod pob pwynt gwefru bellach wedi'u gosod ac yn weithredol.

Gan droi at Gronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod, dywedwyd mai'r diffyg a ragwelwyd am y flwyddyn fyddai £120k ac felly roedd disgwyl i falans y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn ostwng i £1,021k ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y gronfa grantiau cyfalaf wrth gefn nas defnyddiwyd yn dangos y grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ond heb eu gwario yn y flwyddyn y'u

derbyniwyd. Roedd y grantiau i’w defnyddio i brynu tir yn Nhrefdraeth ac i brynu offer torri porfa a reolir o bell. Byddai'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn a'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw a chyfalaf yn ystod y flwyddyn, ac roedd disgwyl iddynt ddisgyn i £1k (refeniw) ac i £4,232k (cyfalaf) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld llwyddiant y canolfannau ond yn bryderus bod angen naill ai mwy o incwm yn y tymor canolig i osgoi disbyddu’r arian wrth gefn neu byddai angen torri’r costau. Atebodd y Prif Weithredwr bod cynhyrchu incwm yn faes sy'n cael ei drafod yn rheolaidd gyda’r rheolwyr, fodd bynnag y cyfyng-gyngor oedd cynhyrchu incwm sy'n cwrdd â'r diffyg, yn hytrach na chreu gwaith ychwanegol.

**Nodwyd.**

**11. Adroddiad Perfformiad am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2023**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau am 2022/23. Wrth i’r Awdurdod fynd drwy gyfnod o newid, roedd fframwaith mesur perfformiad trosiannol wedi'i roi ar waith ar gyfer 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd yn hyn hyd at 30 Medi 2023 ac yn cynnwys ystadegau Chwarter 2 ar gyfer rhai setiau data a gofnodir yn chwarterol, ac yn amlygu'r meysydd hynny lle'r oedd targedau mewn categori coch neu felyn neu lle bu cynnydd cadarnhaol ers yr adroddiad blaenorol. Rhoddwyd diweddariad ar nifer o brosiectau ar draws pob un o'r amcanion, a gofynnodd a derbyniodd yr Aelodau eglurhad ar nifer o'r prosiectau hyn.

**Nodwyd.**

**12. Cynllun Parhad Busnes**

Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio y Cynllun Parhad Busnes diweddaraf oedd wedi'i ddiwygio yn unol ag argymhelliad archwilio mewnol. Dywedwyd bod y Cynllun yn rhoi arweiniad cyffredinol i’r staff wrth ymateb i unrhyw ddigwyddiad arwyddocaol oedd yn tarfu ar weithrediadau busnes arferol. Roedd y gweithgor swyddogion wedi cyfarfod yn ddiweddar i sicrhau bod pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac i gynllunio ar gyfer profi'r ddogfen. Byddai'r ddogfen yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i dwyn gerbron yr Awdurdod yn flynyddol fel y gellir cytuno ar unrhyw newidiadau. Nodwyd bod Cynllun Adfer ar ôl Trychineb ar gyfer technoleg gwybodaeth yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld y ddogfen bwysig hon, ac roedd y swyddogion wedi rhoi sicrwydd iddynt y byddai gwybodaeth arall a nodwyd ganddynt yn cael ei chynnwys yn y Cynllun Adfer ar ôl Trychineb ar gyfer technoleg gwybodaeth.

**Nodwyd.**

**13. Adroddiad Chwarterol Iechyd, Diogelwch a Lles**
Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch, a gyflwynodd adroddiad oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ar Ddigwyddiadau a Damweiniau, y Monitro Diogelwch Rheolaidd a gynhelir, Cymorth Cyntaf, Asesiadau Risg Tân, y Syndrom Dirgryniad Llaw Braich, y Grŵp Iechyd a Diogelwch (cofnodion y cyfarfod diweddaraf wedi'i ystyried yn gynharach yn y cyfarfod, cofnod 6), Archwiliadau Iechyd a Diogelwch, Polisïau Iechyd a Diogelwch, Hyfforddiant, Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch, a'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr. Roedd dangosfwrdd yn dangos ystadegau absenoldeb salwch staff.

Roedd y Swyddog wedi ateb cwestiynau'r Aelodau ynghylch yr adroddiad, a **nodwyd.**

**14. Syndrom Dirgryniad Llaw Braich (HAVS) – Adroddiad Diweddaru**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i Bennaeth Adfer Natur yr Awdurdod, yr oedd ei adroddiad yn dilyn ymlaen o'r adroddiad diweddaru mwy cynhwysfawr a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Natur a Thwristiaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at rai o'r camau mwyaf arwyddocaol a gymerwyd dros yr ychydig fisoedd diwethaf i barhau â'r cynnydd a wnaed, ac roedd y copi mwyaf diweddar o Gynllun Gweithredu HAVS ynghlwm i'r adroddiad. Nodwyd bod monitro yn mynd rhagddo ac y byddai mapio a chynllunio pellach yn digwydd dros y gaeaf cyn y tymor torri y flwyddyn nesaf. Mewn ymateb i gwestiwn, roedd swyddogion yn rhagweld y byddai'r adroddiadau ar HAVS yn y dyfodol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad Iechyd a Diogelwch, fodd bynnag gofynnodd yr Aelodau am gael un adroddiad pellach ar ddiwedd cyfnod y gaeaf.

**Nodwyd.**

**15. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried**.**

**Nodwyd**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024 heb eu diwygio.